## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0307(SJL) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Mai 2008**

**At Helen Mary Jones:**

Cytunais i ysgrifennu atoch ar ôl y Cwestiynau Llafar yn y cyfarfod llawn ar 30 Ebrill gan eich bod wedi codi mater cyflog cyfartal.

Mae fy swyddogion, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi gofyn i holl awdurdodau lleol Cymru roi'r newyddion diweddaraf iddynt ynghylch rhoi'r adolygiadau Statws Sengl ar waith a'r mater ar wahân o drafodaethau ynghylch ôl-daliadau.

Yn naturiol mae rhai awdurdodau yn awyddus i osgoi disgrifio eu sefyllfa yn rhy benodol gan eu bod yn ymwybodol o'r angen i beidio ag amharu ar drafodaethau sy'n mynd rhagddynt ag undebau llafur a gweithwyr. Serch hynny, rwy'n barod i rannu'r wybodaeth sydd gennyf ar hyn o bryd.

Rwy'n deall bod pob awdurdod lleol wedi cyflawni cryn dipyn o safbwynt sicrhau cyflogau cyfartal, ond mae pob un yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd yn unol â'r amgylchiadau perthnasol. O safbwynt ôl-daliadau, mae 6 awdurdod lleol wedi ymrwymo i gytundebau sy'n galw am gyfarwyddiadau cyfalafu. Mae o leiaf 2 neu dri arall yn bwriadu rhoi terfyn ar y mater hwn yn fuan iawn, ond deallaf nad ydynt o anghenraid am droi at gyfarwyddiadau cyfalafu. Mae nifer o awdurdodau lleol eraill yn awyddus i gwblhau eu trafodaethau yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac maent yn debygol o geisio cyfarwyddiadau cyfalafu yn unol â'r dyddiad cau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei bennu ar gyfer ceisiadau. Nid yw'r union ddyddiad ar gyfer ceisiadau yn 2008-09 wedi'i bennu hyd yma a chaiff ei drafod â llywodraeth leol. Rhagwelir y bydd tuag at ddiwedd mis Medi, tua 3 mis yn gynharach na'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer 2007-08, sef 15 Rhagfyr.

O safbwynt gweithredu canlyniad yr adolygiadau Statws Sengl, mae Wrecsam wedi llwyddo i ddod i gytundeb a deallaf y gallai hyd at 3 awdurdod arall ddod i gytundeb yn fuan iawn. Mae nifer o awdurdodau eraill hefyd yn gobeithio cytuno ar setliadau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd ein cais i glywed y newyddion diweddaraf yn rhoi darlun mwy clir i ni o'r sefyllfa gyffredinol a'r amserlenni y mae'r awdurdodau yn gweithio o'u mewn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl i mi dderbyn ymatebion i'n cais diweddaraf am wybodaeth.